

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### Y BIL DIWYGIO LLES

#### Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

1. “Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai Senedd y Deyrnas Unedig ystyried y darpariaethau pellach y cyfeirir atynt yn y Bil Diwygio Lles sy'n ymwneud â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, yn ogystal â'r darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NDM 4713, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

#### Cefndir

2. Cyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ym mharagraff 1 uchod gan Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
3. Cyflwynwyd y Bil Diwygio Lles (y Bil) ar 16 Chwefror 2011. Gellir gweld y Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2010-11/welfarereform.html>

#### Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn darparu ar gyfer cyflwyno 'Credyd Cynhwysol' i ddisodli amrywiaeth o fudd-daliadau cyfredol â phrawf modd ar gyfer pobl o oedran gweithio o fis Ebrill 2013 ymlaen.
5. Yn ogystal, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau atodol i'r Bil Diwygio Lles yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mai 2011. Mae'r gwelliannau hyn yn diwygio Deddf Tlodi Plant 2010 ac yn ymwneud â newidiadau i swyddogaeth a chylch gwaith y Comisiwn Tlodi Plant, sydd hefyd yn golygu newid ei enw i'r "Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant".
6. Yn gryno, y darpariaethau y cyfeirir atynt yn y Bil Diwygio Lles o ran y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yw:
  - a. Caiff cylch gwaith y Comisiwn ei ymestyn i gynnwys symudedd cymdeithasol yn ogystal â thlodi plant.

- b. Ni fydd y Comisiwn yn cynnig cyngor mwyach ar ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant y DU.
  - c. Rhaid i'r Comisiwn roi cyngor ynghylch mesur anfantais economaidd-gymdeithasol, symudedd cymdeithasol a thlodi plant, ar gais un o Weinidogion y Goron.
  - d. Bydd gofyn i'r Comisiwn gynhyrchu adroddiadau blynyddol annibynnol yn asesu'r cynnydd a wnaed o ran gostwng tlodi plant a gwella symudedd cymdeithasol.
  - e. Ni fydd gofyn mwyach i'r Ysgrifennydd Gwladol gynhyrchu adroddiadau cynnydd blynyddol ar y targedau tlodi plant a'r strategaeth tlodi plant, gan y bydd dyletswydd ar y Comisiwn i gynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol fel y nodir ym mhwynt (d) uchod. Bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, fodd bynnag, wneud datganiad ar y cynnydd a wnaed i gwrdd â'r targedau erbyn y flwyddyn 2020.
7. Ceir ar ddeall bod Llywodraeth y DU yn ystyried cyflwyno gwelliannau pellach i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Byddai'r gwelliannau hyn yn cael gwared ar y gofyniad i adroddiad blynyddol y Comisiwn gyflwyno safbwyntiau ar y cynnydd a wnaed i weithredu'r strategaethau datganoledig. Yn hytrach, yr unig beth y byddai gofyn i'r adroddiad ei wneud fyddai disgrifio'r camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac adrannau perthnasol Gogledd Iwerddon yn unol â'u priod strategaethau.

### **Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

8. Y darpariaethau perthnasol yn y Bil yw:

**Atodlen 13, paragraff 2 (yr adran 8B arfaethedig newydd)**- Mae hwn yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiadau blynyddol yn amlinellu ei farn ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r 'nodau' yn adran 8B(2) ac (os caiff ei ddiwygio fel y cynigir ym mharagraff 7 uchod) y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â strategaeth Cymru. Mae'r darpariaethau ynghylch y 'nodau' o wella symudedd cymdeithasol a lleihau tlodi plant o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Atodlen 7, pwnc 15, i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru.

**Atodlen 13, paragraff 2 (yr adran 8C arfaethedig newydd)** – Mae hwn yn rhoi'r swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron o gyfarwyddo'r Comisiwn i gyflawni unrhyw weithgareddau mewn perthynas â'r 'nodau' yn adran 8B(2).

**Atodlen 13, paragraff 3 (yr atodlen 1 arfaethedig newydd)** – Mae hwn yn disodli Atodlen 1 i Ddeddf Tlodi Plant 2010 ac (ymysg pethau eraill) yn cael gwared ar y swyddogaeth o ymgynghori â Gweinidogion Cymru pan fo un o Weinidogion y Goron yn penodi unrhyw aelod arall o'r Comisiwn. Un o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol oedd hyn yn flaenorol, ond roedd yna ddyletswydd ar wyneb Deddf Tlodi Plant

2010 i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penodi unrhyw aelod. Mewnosodir pŵer newydd hefyd i un o Weinidogion y Goron benodi un o'r aelodau yn ddirprwy gadeirydd. Nid oes yna unrhyw newid i bŵer Gweinidogion Cymru i benodi aelod o'r Comisiwn.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd â'r cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau hyn, a gynhwysir yn y pwnc Lles Cymdeithasol ("Social Welfare") (Gwarchodaeth a lles plant gan gynnwys mabwysiadu a maethu. Gofalu am oedolion ifanc, pobl agored i niwed a phobl hŷn), ym mhwc 15 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cymalau arfaethedig yn ceisio gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ("in relation to Wales") at ddiben o fewn adran 108(7) ac Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Manteision defnyddio'r Bil**

9. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur o sicrhau bod y darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru cyn gynted â phosibl yn unol â blaenoriaethau Cymru a'r hyn sy'n bwysig iddi.
10. Byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn adrodd ar y camau a gymerwyd i weithredu Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Bydd cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil, fodd bynnag, yn golygu y gellir cyflwyno'r wybodaeth hon fel rhan o ddarlun y DU gyfan. Byddai hynny'n gyson â'r hyn y cytunwyd arno yn Neddf Tlodi Plant 2010.
11. Pe bai caniatâd yn cael ei wrthod, y canlyniad rhesymegol fyddai dileu'r cyfeiriad at strategaeth Cymru ac ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Barn Llywodraeth Cymru yw na fyddai hi'n ddymunol hepgor Gweinidogion Cymru rhag ymwneud â'r Comisiwn, a hynny am nifer o resymau. Mae swyddogaeth y Comisiwn ac ymwneud Gweinidogion Cymru ag ef yn cefnogi ymrwymadau polisi Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Yn arbennig, bydd ei gyngor ynghylch dangosyddion cyffredin ar anfantais economaidd-gymdeithasol a thlodi plant o fudd mawr, ac yn hwyluso gweithrediad strategaeth tlodi plant Cymru.
12. Bydd y ffaith bod Gweinidogion Cymru yn parhau i ymwneud â'r Comisiwn hefyd yn sicrhau bod safbwyntiau Cymru yn rhan o drafodaethau ar lefel y DU yn y dyfodol ar y dulliau mwyaf effeithiol o frwydro yn erbyn tlodi plant, sef un o ymrwymadau Llywodraeth Cymru.
13. O ganlyniad, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn wedi'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol iddo ei ystyried.

### **Goblygiadau ariannol**

14. Nid oes yna unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru o ganlyniad i weithredu, yn ddilynol, ddarpariaethau perthnasol y Bil Diwygio Lles na ellir cwrdd â hwy fel rhan o'r ymrwymadau cyfredol o ganlyniad i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, p'un ai mewn perthynas ag ymateb i ymgynghoriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gyfranogiad yr aelod a benodwyd gan Weinidogion Cymru o'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant.

Gwenda Thomas AC

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ionawr 2012